

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

Cofnodioncyfarfod12 Chwefror 2019 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7:00 yn yrhwy.		
PRESENNOL		
Daniel Williams	Gruff John	
Casi Roberts	Mei Gwilym	
Eifion Williams	Nerys John	
Elliw Williams	Iwan Huws	
Wynne Barton - SwyddogAriannol	Gareth Griffiths - Cynghorydd Sir	
1.0	GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU	
	Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i Gyfarfod mis Chwefror y Cyngor. Croesawyd y Cynghorydd Elliw Williams i'w chyfarfod cyntaf a diolch iddi am wirfoddoli i wasanaethu'r gymuned.	
1.1	Eglurodd y Cadeirydd achos strwythur newydd yr agenda gan obeithio bydd yn llwyddo yn ei bwrpas.	
1.3	Cyfeiriodd y Cynghorydd at brofedigaeth y cyn gadeirydd Ken Brown yn ei brofedigaeth o golli ei wraig Shirley. Cafwyd ennyd o ddistawrwydd fel arwydd o barch.	
1.4	Derbyniwydymddiheuriadaugan Aled Emyr, Einir Coates ac Iestyn Harris.	
2.0	ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR	
	Adroddodd y Cynghorydd Sir bod dau diffib wedi ei osod hyd yma, gobeithir bod y trydydd yn cael ei osod fory (13 o Chwefror 2019) yn yrysgol.	
	Mae'r Cyngor Sir wedi bod yn gweithredu yn y pentref yn ddiweddar sef llenwi tyllau yn y ffyrdd a chlririo.	
	Yn dilyn cymhorthfa rhwng y Cynghorydd Sirol a'r Aelod Cynulliad Siân Gwenllïan ym mis Ionawr lle'r oedd llawer o gwynion ynglŷn â gorr-yrru anfonwyd at yr Heddlu. Maent wedi datgan byddant yn mynychu'r pentref yn y dyfodol agos. Roedd damwain yn ddiweddar o ganlyniad i or-yrru.	
	Cwyn arall oedd baeddu gan gwn ar Stryd Bangor, mae'r Cyngor Sir wedi gosod arwyddion o gwmpas y pentref. Roedd diwrnod y gymhorthfa yn ddiwrnod reit brysur.	
3.0	DATGAN DIDDORDEB	
	Cynghorydd Gruff John a Cynghorydd Eifion Williams – eitem 4.2	
4.0	CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL	
4.1	Cyflwynodd y Swyddog Ariannol gwariant ac adroddiadau'r Cyngor ar gyfer mis Ionawr 2019. Derbyniwyd y gwariant ac adroddiadau. Cynigwyd ac eiliwyd fel rhai cywir.	
	Cyflwynodd y Swyddog Ariannol adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol Cymru – rheoli ariannol a llywodraethu cynghorau 2017- 2019 er gwybodaeth i'r Cyngor. Y Clerc i anfon copi drwy e-bost i'r aelodau.	
	Hefyd o'r adroddiad gwelwyd bod angen amodau gorchwyl ynglŷn ag is-bwyllgorau'r Cyngor. Y Clerc i weithredu a'r hyn	
		CLERC - Cwblhau

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	erbyn cyfarfod mis Mawrth	
4.2	Cyflwynwyd ceisiadau grant am y flwyddyn ariannol 2019-2020. Ystyriwyd y ceisiadau a dyfarnwyd arnynt- gweler atodiad A. Y Clerc i wneud datganiad o'r grantiau ar y wefan a'r Cynghorydd Nerys John i roi datganiad yn y Goriad.	CLERC/NJ
5.0	CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL	
5.1	Cadarnhawyd cofnodion mis Ionawr fel rhai cywir.	
5.2	Mater yn codi o'r cofnodion – mae golau solar ar gyfer cysgodfan bws ger Cerrig yr Afon wedi ei archebu a bydd yn cael ei osod yn fuan. Gor-dyfiant ar waelod lon Pen-Y-Bryn- Y Cyngor Sir yn delio a'r mater.	EW
6.0	CEISIADAU CYLLUNIO	
6.1	C19/00067/20/LL – Lleoli 4 unedlletygywyliautymhorolarffurfycytiaubugailynghyd a chawodardiramaethyddol – FfermPlas Llanfair, Ffordd Caernarfon, Y Felinheli LL55 1TT – DIM GWRTHWYNEBIAD	CLERC - e-bost wedi ei anfon at wasanaethau cynllunio
7.0	PRIFFYRDD	
7.1	Cafwyd cais gan y Cynghorydd Sir Gareth Griffiths yn dilyn cais trigolion Ger y Nant i'r Cyngor Cymuned i archebu bin halen ar gyfer y stad. Ystyriwyd y mater a phenderfynwyd ariannu'r bin. Y Clerc i anfon at Y Cyngor Sir i ddatgan hyn.	CLERC- e-bost wedi ei anfon at Gyngor Gwynedd i archebu'r bin
7.2	Cafwyd gwybodaeth bod gwaith wedi ei wneud i wal yn Rowen. Dywedodd y Cynghorydd Sir ei fod wedi adrodd ynglŷn â hyn i'r Cyngor Sir.	GG
8.0	ADRODDIADAU LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANNAU A MEINCIAU	
8.1	Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Nerys John ynghyd a gwella ansawdd ffenestri cysgodfannau – dywedodd ei bod wedi cael prisiau ar arwyddion stici i'w gosod ar ffenestri'r gysgodfan. Byddai llun (yr un ar y wefan) neu lun gan blant yr ysgol yn cael ei drosglwyddo'n ddigidol. Cafwyd dau bris un gan Arwyddion Caernarfon a'r llall o arwyddion Penygroes, roedd ychydig o amheuaeth i un pris oherwydd nid oedd yn datgan os mai pris un neu ddau. Hefyd roedd y gallu gan un contractwr i osod ffilm a oedd yn wrth losgi. Y Cynghorydd Nerys John i sicrhau'r pris.	NJ
8.2	Mae contractwyr sydd yn gosod y gysgodfan yn Aberpwell yn barod i symud ymlaen a'r gwaith cyngynted a byddent wedi derbyn gwybodaeth ynglŷn â dyfais gwarchod gwaelodion y postiau.	DW- gwybodaeth wedi ei ddrbyn yngyd a amcanbris
9.0	ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES, PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH	
9.1	DIM	
10.0	ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y FYNWENT	
10.1	DIM	
11.0	PROSIECTAU	
11.1	Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Nerys John ynglŷn ag offer chwarae i blant 7 - 11 yn y Cae Chwarae. Cyfeiriodd y Cynghorydd at gymorth y Cynghorydd Casi Roberts ag	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	Anwen Lynne ar ymweliad safle. Roedd prisiau cyflwyno wet pore ag offer chwarae yn gallu bod rhwng £20K a £30K. Efallai byddai ymgynghoriad a'r plant yn dda o beth ynglŷn â'r offer. Mae cais grant at loteri postcode wedi ei wneud. Mae angen edrych ar fwy o ffynonellau ariannu prosiectau. Y Cyngorydd Nerys John i wneud fwy o ymchwil ariannu. Cafwyd syniadau fel Cist Gwynedd, Grantiau Cymunedol CCG, Watkin Jones, Llwybr arfordir, Aviva, Dwr Cymru a Magnox.	NJ
12.0	ADRODDIAD COFEB Y CLOC	
12.1	DIM	
13.0	ADRODDIAD Y NEUADD	
13.1	Cyflwynodd y Cyngorydd Gruff John adroddiad ynglŷn ag archebu byrddau crwn ar gyfer y neuadd. Penderfynwyd archebu 12 bwrdd crwno'r maint 5' 6". Bydd angen sefydlu bod y byrddau yn gallu cael eu cludo lawr y grisiau cyn bod troli yn cael ei archebu. Roedd Pris y byrddau yn £767.	GJ
13.2	Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn dau bris am y ffenestri, nid oedd llawer o wahaniaeth yn y prisiau, penderfynwyd symud ymlaen a'r ffenestri.	DW
13.3	Nid oedd Kimberley Gulf wedi bod yn y neuadd eto ond bydd yn gweithredu'r gwaith wythnos yma.	
13.4	Cafwyd anfoneb Owen & Palmer am waith cyn y Nadolig, penderfynwyd bod y gwaith wedi ei gwblhau a chytunwyd i'w dalu £91.40.	Swyddog Ariannol
13.5	Mae goleuadau ar ochr y neuadd wedi eu gosod, mae angen newid un bwlb oherwydd bod yn rhy ddisglair.	
13.6	Mae ystafell gwaelod yn gwella o ran tamprwydd ond er mwyn symud ymlaen mae angen derbyn diweddariad ar adroddiad y pensaer. Gobeithir gofyn iddo am y diweddariad yn y mis nesaf.	DW
13.6	Mae ychydig o broblemau wedi codi ynglŷn â'r neuadd a'r sustem llogi; yn enwedig ynglŷn â defnyddwyr yn canslo defnydd ac yn methu hysbysebu'r Cyngor o hyn. Yr Is-bwyllgor i ystyried telerau canslo yn eu cyfarfod misol nesaf.	DW
13.7	Derbynnwyd amcan bris ysgrifenedig gan ID & DM Owen £495.00 ex TAW am waith ar ddrysau. Penderfynnwyd bwrw mlaen a'r gwaith.	DW
13.8	Trafodwyd bod angen cyfri yr offer sydd o fewn y neuadd e.e. cadeiriau er mwyn gallu rhoi'r niferoedd ar y wefan.	
14.0	TOILEDAU CYHOEDDUS	
14.1	Mae pwyllgor codi arian argyfer diffibs am gael gosod y pedwerydd diffib ar y toiledau ar Lan y Môr. Roedd y Cyngor Sir wedi derbyn pris o £200 gan Owen & Palmer i osod y Diffib. Roedd cais gerbron y Cyngor i dderbyn cyfrifoldeb o dalu'r anfoneb hwn a hefyd i sicrhau prawf wythnosol yr offer. Penderfynwyd bod y Cyngor Cymuned yn fodlon i dalu'r gost.	CLERC
14.2	Nid oes gwybodaeth bellach ynglŷn â'r toiledau gan y bragdy/Cyngor Sir.	
15.0	GWYDNWCH CYMUNEDOL	
15.1	DIM I'W ADRODD	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

16.0	GWEFAN	
16.1	Newidiadau wedi eu gwneud i'r wefan.	
17.0	MATERION AMRYWIOL	
17.1	Menter y Fic – cafwyd adroddiad bod y mater yn symud ymlaen a bod pwyllgor wedi eiosod. Cadarnhawyd bod y Cyngor Cymuned wedi talu am offer a gwasanaeth cyfieithu ar gyfer y cyfarfod cyhoeddus cyntaf. Mae angen symud ymlae i wneud cyfansoddiad ffurfiol. Mae cyfraniadau wedi eu gwneud er mwyn galluogi'r grŵp i gael gwerth y Fic (DyddGwener), gwneud dogfennau, poster ac yn y blaen er mwyn codi arian. Polisi'r fenter yw os bydd y fenter yn methu yna bydd unrhyw arian sydd wedi ei godi yn cael ei rannu rhwng elusennau lleol. Bydd cyfarfod nesaf ar y 19eg o Chwefror 2019 lle bydd Co-operative Wales yn dod i roi strwythur i'r fenter. Mae'r grŵp wedi gofyn a byddai'r neuadd at gael yn rhad iddynt. Penderfynwyd rhoi, defnydd o'r neuadd am ddim ar gyfer y cyfarfod yma ac yn unrhyw gyfarfod ynddi hyd nes bod y fenter ar ei draed cyn belled bod neb arall angen y Neuadd ar yr run amser.	
17.2	Derbyniwyd ymgynghoriad ynglŷn â chais y Swellies am drwydded eiddo. Nid oedd gwrthwynebiad. Y Clerc i anfon at y gwasanaeth Trwyddedu.	CLERC
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 21:30	
Llofnod:		Dyddiad:

ATODLEN A

DYMA OEDD PENDERFYNIAD Y CYNGOR – THIS WAS THE COUNCIL’S DECISION

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI COMMUNITY COUNCIL

CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL/ FINANCIAL ASSISTANCE GRANT APPLICATIONS

2019

CYMDEITHAS/ORGANISATION	MANTOLEN / STATEMENT	2017/2018	2018/2019	
Y Goriad £ 200	}	200	200	Cyhoeddi a dosbarthu deg rhifyn misol or papur bro yn y Felinheli yn ystod y flwyddyn
ClwbPeldroed	}	1000	1000	I wella y cyfleusterau yn Seilo I gael aros ar y lefel yn y pyramid peldroed.
Cyfeillion Ysgol Y Felinheli £1200		300	1150	I wella cyfleusterau awyr agored adran iauYsgol Y Felinheli. Disgrifiad manwl wedi ei gylch lythyru.
Ras Hwyllo £250	}	200	250	I helpu at gostau cynnal Regata Felinheli
Clwb y Felin (Henoed)		100	100	I dalu am weithgareddau a siaradwyr gwadd
Clwb Peldroed Ieuenctid £300		300	300	Cyfraniad tuag at brynnu citiau newydd ac offer ymarfer
Gwyl y Felin £1000	}	1000	1000	Tuag at cynnal gweithgareddau yn ystod y flwyddyn
PARCH £1000	}		500	Tuag at costau cynnal a chadw mynwent yr Eglwys yn Llanfairisgaer

Nodyn:

Mae Yr Eglwys yn derbyn £500 pob blwyddyn tuag at dorri y Fynwent yn unol a rheolau sefydlog y Cyngor.